Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

MERCHED, PLANT A CHAMDRINIAETH YN Y CARTREF: **PWY YDYM NI A BETH A WNAWN NI**

www.welshwomensaid.org

Mae **Cymorth i Ferched Cymru** am i gamdriniaeth yn y cartref gael ei chydnabod fel mater sy'n ymwneud yn benodol â rhyw, ynghyd â'r sicrwydd bod gwasanaethau a chymorth priodol ar gael i ferched a phlant, gan arwain at ddileu pob math o gamdriniaeth yn erbyn merched.

❋

WALES DOMESTIC ABUSE HELPLINE
LLINELL GYMORTH CAMDRINIAETH YN Y CARTREF CYMRU
0808 80 10 800

Ein Cefndir

Sefydlwyd Cymorth i Ferched Cymru (CFC) ym 1978 i ymgyrchu a lobïo dros welliannau mewn polisi cyhoeddus a deddfwriaeth gan y llywodraeth mewn perthynas â merched a phlant sy'n destun camdriniaeth yn y cartref yng Nghymru.

CFC yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol sy'n cynrychioli Grwpiau Cymorth i Ferched lleol a leolir ym mhob rhan o Gymru. Mae'r grwpiau sy'n aelodau yn darparu gwasanaethau uniongyrchol i ferched a phlant sydd wedi cael profiad neu sydd yn cael profiad o gamdriniaeth yn y cartref.

Gall CFC ddarparu hyfforddiant, cymorth a gwybodaeth arbenigol i'r grwpiau sy'n aelodau ac i sefydliadau allanol.

Rydym yn rheoli **Llinell Gymorth Genedlaethol Camdriniaeth yn y Cartref Cymru**, sef llinell gymorth gyfrinachol ddwyieithog, yn rhad ac am ddim, i ferched a dynion, sy'n darparu cymorth a gwybodaeth i unrhyw un sy'n destun camdriniaeth yn y cartref, ac i unigolion a sefydliadau sy'n dymuno cael gwybodaeth neu gyngor.

www.welshwomensaid.org

Meysydd arbenigol o fewn Cymorth i Ferched Cymru

Hyfforddiant a Datblygiad

- Sicrhau rhaglen hyfforddiant sy'n datblygu'n barhaus a fydd yn cynorthwyo grwpiau sy'n aelodau i gyflwyno gwasanaethau o ansawdd.
- Darparu hyfforddiant i sefydliadau allanol, yn arbennig mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o faterion allweddol yn ymwneud â chamdriniaeth yn y cartref.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn ganolfan i'r Rhwydwaith Coleg Agored Cenedlaethol (RhCAC) a gall gynnig cymwysterau achrededig.

- Cyfrifol am ddatblygu a chyflwyno'r rhaglen hyfforddiant achrededig, gan gynnwys unedau hyfforddiant penodol mewn camdriniaeth yn y cartref.

Gwasanaethau Cyfreithiol

- Darparu gwybodaeth gyfreithiol, gwybodaeth wedi'i diweddaru a hyfforddiant mewn ystod o feysydd cyfreithiol i grwpiau sy'n aelodau.
- Darparu ymatebion i bapurau ymgynghorol ar ran Cymorth i Ferched Cymru.

Gwasanaethau Tai

- Darparu gwybodaeth a hyfforddiant i grwpiau sy'n aelodau ar faterion tai a materion tai â chymorth gan gynnwys digartrefedd, cynnal pobl a budd-daliadau lles.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn Ddarparwr Cymorth Achrededig (DCA).

- Monitro ac adolygu'r gwasanaethau Cefnogi Pobl ar gyfer y grwpiau hynny sy'n aelodau mae CFC yn DCA ar eu cyfer, yn unol â'r rheoliadau a ddiffiniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Ystadegau

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn casglu ystadegau gan grwpiau sy'n aelodau er mwyn darparu trosolwg o nifer y merched a'r plant sy'n defnyddio gwasanaethau Cymorth i Ferched ar draws Cymru.

- Llunio'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol a darparu ystadegau cyfoes i staff cenedlaethol CFC, grwpiau sy'n aelodau o CFC, Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill.

Y Cyfryngau a Chyfathrebu

- Sicrhau bod gwaith CFC yn cael ei hyrwyddo i fuddiolwyr allweddol a'r cyfryngau cenedlaethol.
- Sicrhau bod cyfathrebu effeithiol o fewn CFC a grwpiau sy'n aelodau.
- Cydlynu ymgyrchoedd allweddol a digwyddiadau yn ymwneud â chamdriniaeth yn y cartref.

Cymorth i Ferched Cymru
38-48 Crwys Road,
Caerdydd CF24 4NN

Ffôn 02920 390874
Ffacs 02920 390878
E-bost info@welshwomensaid.org.uk

www.welshwomensaid.org

GWASANAETHAU I BLANT A PHOBL IFANC.

- Rhedeg y prosiect 'Mae Plant yn Bwysig' – gan hyrwyddo mwy o gysondeb a safonau ansawdd wrth gyflwyno a datblygu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ymysg grwpiau sy'n aelodau.
- Hyrwyddo hawliau plant drwy'r sefydliad cyfan ac o fewn grwpiau.
- Addysgu a hysbysu plant a phobl ifanc am berthnasau iach, a helpu i'w diogelu rhag effaith negyddol camdriniaeth yn y cartref.

MAE PLANT YN BWYSIG
CHILDREN MATTER

www.welshwomensaid.org